



Eich cyf/Your ref HB-622-21
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil y Lluoedd Arfog ("y Bil").

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y memoranda a'r adroddiad dilynol. Gwn fod cryn gefnogaeth ar draws y Senedd i gymuned y Lluoedd Arfog ac rwyf yn gwerthfawrogi gwaith fy nghyd aelodau i helpu i hyrwyddo buddiannau a llesiant y rhai sydd wedi gwasanaethu ac sy'n dal i wasanaethu ein gwlad.

Rwyf yn nodi argymhellion a chasgliadau adroddiad y Pwyllgor ac, yn unol â'ch cais, hoffwn fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd cyn y ddadl ar y Bil sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 23 Tachwedd.

Argymhelliad 1. *Dylai'r Dirprwy Weinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi asesiad Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ac i'r Senedd o'r newid yn sefyllfa lywodraeth y DU o ran ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 8 o'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw drafodaethau perthnasol y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU.*

Rwyf yn rhannu pryder y Pwyllgor ynghylch y newid yn safbwynt Llywodraeth y DU o ran a fyddai cymal 8 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Safbwynt cychwynnol Llywodraeth y DU, fel y'i hamlinellwyd yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2021, oedd bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 8. Roedd safbwynt Llywodraeth y DU wedi newid erbyn i'r Bil gael ei ailgyflwyno ar 12 Mai 2021 ac fe adlewyrchwyd hyn mewn newid i'r Nodiadau Esboniadol.

Ysgrifennais at y Gweinidog dros Bobl Amddiffyn a Chyn-filwyr ar 28 Mai yn mynegi fy siom enbyd ac yn gofyn am eglurhad am y rheswm dros y newid safbwynt hwn. Yn ei ymateb i'm

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ilythyr mae'r Gweinidog yn awgrymu, ar yr adeg y cafodd y Bil ei gyflwyno, ym mis Ionawr 2021, nad oedd y mater a oedd cymal 8 yn galw am broses cynnig Cynnig Deddfwriaethol y Senedd wedi'i setlo. Esboniodd fel a ganlyn: wedi ystyried effaith darpariaethau'r cyfamod yn eu crynswth, ac er y disgwylir i'r darpariaethau gael effaith ar faterion datganoledig, a byddant yn gymwys i "gyrff datganoledig", daethant i'r casgliad bod yr effaith yn ganlyniadol i'r prif dibenion ac yn atodol iddynt. Maent o'r farn bod y prif ddiben yn ymwneud â Lluoedd Arfog y Goron, sy'n fater a gedwir yn ôl, ac felly'n dod i'r casgliad na elwir ar broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'n amlwg bod ein casgliad ni ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol yn wahanol i gasgliad Llywodraeth y DU ac rydym wedi esbonio i Lywodraeth y DU ein bod o'r farn bod cymal 8 yn ymwneud â meysydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef iechyd, addysg a thai. Rydym, felly, wedi parhau â'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i roi cyfle i'r Senedd drafod y mater pwysig hwn. Hoffwn ychwanegu, er hynny, fod pob un o ddarpariaethau eraill y Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl a bod ein hasesiad yn gyson â Llywodraeth y DU ar y materion hynny.


Mae gwahaniaeth barn yn ein hasesiadau o'r ddarpariaeth hon yn y Bil. Ond hoffwn bwysleisio, er gwaethaf y gwahaniaeth barn hwn, fy mod o blaid cynnwys y ddarpariaeth mewn Bil i'r DU gyfan er mwyn ymwreiddio Cyfamod y Lluoedd Arfog ymhellach mewn cyfraith ledled y DU.

Yng Nghasgliad 2, am i Lywodraeth y DU wrthod fy nghais i ofynion cydsyniad gael eu cynnwys (cyn cyhoeddi neu ddiwygio canllawiau o dan adran 343AE newydd a chyn gwneud unrhyw reoliadau newydd o dan adran 343AF newydd), mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth y DU o sefyllfa Llywodraeth Cymru fel y Llywodraeth etholedig yng Nghymru. Er fy mod yn dal yn siomedig am safbwynt Llywodraeth y DU rwyf o'r farn bod y manteision, i'r rhai yng Nghymru a ddeuai o dan y ddyletswydd sylw dyledus yng nghymal 8, yn drech nag unrhyw niwed sy'n deillio o safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Mae dyletswyddau i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ar newidiadau i ehangu cwmpas y ddyletswydd sylw dyledus i gynnwys cyrff a swyddogaethau eraill a chyn cyhoeddi canllawiau, wedi'u cynnwys yn y Bil, ac mae hyn yn lleddfu rywfaint ar fy mhryderon. Hyd yn hyn rydym wedi cydweithio'n dda â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar lunio canllawiau i esbonio, a rhoi enghreifftiau o sut y gallai'r ddyletswydd sylw dyledus weithio yn ymarferol. Rydym yn credu bod y cydweithio hwn rhwng swyddogion yn debygol o barhau.

Rwyf yn gobeithio bod hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon a hoffwn ddiolch ichi unwaith eto am eich gwaith.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership